Cylchlythyr Gwanwyn 2008

www.caergors.org ☎01286 831 715 ✉ Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7EY

Tâl Mynediad 2008: Oedolion - £3.80; Pensiynwyr a Phlant - £3.20; Tocyn Teulu - £12

Stomp Cae'r Gors

Llongyfarchiadau i Mari Gwilym am ddod yn fuddugol yn Stomp Cae'r Gors, a gynhaliwyd nos Wener, Chwefror 1af yng Nghlwb Mountain Rangers. Fel y gallwch weld o'r llun, mae hi wedi gwirioni â'i gwobr! Diolch i'r stomp feistr, Arwel 'Pod' Roberts, yn ogystal â Menna Medi, Karen Owen, Alwyn Ifans, Emlyn Gomer, Cynan Jones, Dewi Prysor, Llion Jones a Huw Erith am ein diddanu â'u cerddi ffraeth. Codwyd £231 i gronfa Cae'r Gors a £76 i gronfa Ann Thompson. Diolch i bawb a gefnogodd.

Ymweliadau

Ers agor ym mis Mai 2007, mae bron i 3,000 wedi ymweld â Chae'r Gors, gyda nifer o fudiadau eisoes yn cysylltu i drefnu ymweliad yn ystod tymor yr haf eleni.

Os ydych chi'n aelod o fudiad neu grŵp ac â diddordeb mewn trefnu ymweliad â Chae'r Gors, gallwn deilwra'r ymweliad yn ôl eich gofynion. Cysylltwch â ni am fanylion pellach.

Y Pasg

Bydd gweithgareddau i ddiddanu'r teulu oll yng Nghae'r Gors yn ystod gwyliau'r Pasg eleni. Bydd Cwmni Cortyn yn ymweld â'r ganolfan **ddydd Sul, Mawrth 23ain** a **dydd Llun, Mawrth 24ain** gan berfformio sioe bypedau am 11 a 2 o'r gloch. Bydd stondin peintio wynebau yn ogystal â helfa drysor a gweithgareddau crefft.

Bydd y ganolfan ar agor yn ystod gweddill y gwyliau, rhwng 10 a 4 o'r gloch o ddydd Mawrth i ddydd Gwener, a rhwng 1 a 4 o'r gloch ar y penwythnosau. Dewch draw i weld y tŷ wedi'i addurno'n arbennig ar gyfer y Pasg!

Clwb Llyfrau

Estynnwn wahoddiad cynnes i chi fynychu lansiad Clwb Llyfrau Cae'r Gors a gynhelir **nos Fawrth, Ebrill 8fed** yng nghwmni'r awdures leol, Lleucu Roberts. Bydd Gwenllian Williams yn ei holi am ei nofel ddiweddaraf, *Annwyl Smotyn Bach*, a bydd copïau ohoni ar gael i'w prynu gyda 15% o ostyngiad i aelodau'r clwb.



Bydd y clwb yn cyfarfod yn fisol yng Nghae'r Gors (ac eithrio ym mis Awst) i drafod a dethol cynnyrch llenyddol y flwyddyn, a hynny mewn awyrgylch anffurfiol a chyfeillgar. Mae tâl aelodaeth flynyddol o £4 y pen. Bydd hyn yn caniatáu i aelodau'r clwb brynu'r llyfrau dewisedig gyda 15% o ostyngiad, yn ogystal â mynychu nosweithiau adloniannol y clwb yn rhad ac am ddim. Cysylltwch â ni am fanylion pellach.

Addysg

Croesawyd disgyblion o saith ysgol leol i Gae'r Gors ddiwedd Chwefror i fynychu gweithdai ysgrifennu barddoniaeth dan ofal Myrddin ap Dafydd, Menna Medi a Twm Morys. Dydd Gŵyl Dewi oedd testun y cerddi, a chafwyd digonedd o chwerthin a chanu i ddathlu diwrnod ein nawddsant.

Trefnir rhaglen o weithdai addysgol ar gyfer cyfnodau allweddol amrywiol drwy gydol y flwyddyn. Cysylltwch â ni am fwy o fanylion.

Dyma gerdd a gyfansoddwyd ar y cyd gan Ysgol Waunfawr a Menna Medi. Ewch i'n gwefan i gael darllen y cerddi eraill a gyfansoddwyd yn ystod y gweithdai.

Y Ddraig Goch

Mae'n symbol o Gymru, o'n hiaith ni a'i phobl,
Mae'n fawr ac yn ffyrnig, yn hynod o nobl.
Mae'n chwifio'n yr awyr, yn gwarchod ein gwlad
Yn bygwth pob gelyn sy'n taflu eu brad.
Mae'i thafod yn goch fel hen neidr fawr, hir,
Mae yma i achub a chynnal ein tir.
Y gynffon sy'n troelli a'i blaen hi sy'n finiog,
Y Ddraig yw ein brenin, ein dewin a'n t'wysog.

Siop Cae'r Gors

Mae Cae'r Gors bellach yn gwerthu nwyddau o gasgliad *Cofion o Gymru* gan Melin Tregwynt, sy'n cynnwys llieiniau sychu llestri, bagiau cotwm a mygiau wedi'u haddurno â lluniau du a gwyn.

Mae casgliad gennym yn ogystal o deganau traddodiadol, megis top a chwip, io-ios a marblis; anrhegion delfrydol i'r sawl sentimental yn ein plith!

Ewch i'n gwefan i gael gweld ein rhestr lawn o nwyddau a werthir yn y ganolfan dreftadaeth.

Dyddiadur Mawrth 2008 - Mehefin 2008

Edrychwch ar ein gwefan am wybodaeth bellach

Mawrth 20fed - Cyfarfod Blynyddol Cae'r Gors, 5.30 o'r gloch.
Mawrth 23ain - 24ain - Perfformiadau gan Gwmni Cortyn, 11 a 2 o'r gloch.
Ebrill 8fed - Lansio Clwb Llyfrau Cae'r Gors gyda Lleucu Roberts yn trafod ei nofel ddiweddaraf, *Annwyl Smotyn Bach,* 7.30 o'r gloch.
Ebrill 14eg-18fed - Ar gau i'r cyhoedd. Gweithdai hanes i ysgolion cynradd.
Mai 5ed - Ar agor. Dathliadau Calan Mai.
Mai 6ed, 7fed, 12fed, 13eg, 19eg a 20fed - Ar gau i'r cyhoedd. Gweithdai daearyddiaeth a gwyddoniaeth i ysgolion.
Mehefin 11eg, 12fed a 13eg - Ar gau i'r cyhoedd. Gweithdai ysgrifennu creadigol i ysgolion.

Ariannir y Prosiect hwn yn rhannol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Cronfa Cyfarwyddyd a Gwarant Amaethyddol Ewrop (EAGGF), Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy gyfrwng Cronfa Adfywio Lleol gan Gyngor Gwynedd a Chynllun Cronfa Wledig, Cronfa Gynaladwyedd yr Ardoll Agregau yng Nghymru, Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol a Chwmni Gwastraff Môn-Arfon Cyf